# Dogfen Strategaeth Camfanteisio ar Blant

## BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

APPROVED

| Fersiwn | Dyddiad Diwygio | Perchennog | Dyddiad cymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol | Dyddiad Adolygu |
|---|---|---|---|---|
| f1 | | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | 18/10/2022 | 18/10/2024 |

| | |
|---|---|
| Enw’r Polisi / y Weithdrefn / y Canllawiau | Dogfen Strategaeth Camfanteisio ar Blant |
| Cyfnod ymgynghori | 19/08/2022 – 07/10/2022 |
| Dyddiad Cyhoeddi | 18/10/2022 |
| Dyddiad Adolygu | 18/10/2024 |

APPROVED

## Lledaenu/ Rhoi ar Waith

Gofynnir i asiantaethau wneud y canlynol er mwyn sicrhau y rhoddir y Polisi/y Weithdrefn/y Canllawiau yma ar waith

| | |
|---|---|
| BDCGC | • Gosod ar wefan BDCGC o fewn yr adran bolisi<br>• Anfon at Asiantaethau Partner ar gyfer Lledaenu<br>• Lledaenu i arweinwyr hyfforddiant asiantaethau partner ar gyfer cynnwys o fewn hyfforddiant fel y bo'n briodol<br>• Diweddaru hyfforddiant perthnasol i adlewyrchu’r Polisi/y weithdrefn/y canllawiau |
| Holl Asiantaethau Partner | • Lledaenu’r Polisi/y Weithdrefn/y Canllawiau i bob Arweinydd Gwasanaeth/ Pennaeth Gwasanaeth/Arweinydd Diogelu/ aelod o staff trwy sianeli cyfathrebu priodol e.e. Grwpiau Gweithredol Lleol<br>• Gosod o fewn eu gwefan eu hunain a chynnwys dolen gyda Gwefan BDCGC https://www.cysur.wales/<br>• Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau mewnol i adlewyrchu’r Polisi/y Weithdrefn/y Canllawiau fel y bo'n briodol.<br>• Diweddaru hyfforddiant mewnol i adlewyrchu'r broses fel y bo'n briodol. |

## Sicrwydd

Gofynnir i asiantaethau wneud y canlynol er mwyn sicrhau BDCGC o ran lledaenu’r polisi hwn a’i roi ar waith:

| | |
|---|---|
| **BDCGC** | • Gofyn am sicrwydd gan Asiantaethau Partner ei fod wedi cael ei roi ar waith |
| **Asiantaethau Partner** | • Rhoi sicrwydd i BDCGC bod y broses uchod o roi'r polisi hwn ar waith wedi cael ei chwblhau |

**Cynnwys**


Rhagair 4

Cyflwyniad 5

Y Cyd-destun Cenedlaethol 6

CYSUR: Datganiad Gweledigaeth Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru 8

Nodau'r Strategaeth 8

Diffiniadau a Gwersi Allweddol Gweithdrefnau Diogelu Cymru 9

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CRhaB) 10

Llinellau Cyffuriau 11

Cam-drin Ar-lein 11

Deall Gangiau 11

Masnachu Plant 12

Y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol 13

Ymdrin â'r nodweddion cyffredin mewn achosion o Gamfanteisio ar Blant 13

Sut mae cyflawnwyr yn edrych 14

Diogelu Cyd-destunol 15

Rolau Asiantaethau 20-24

Rhestr Cyfeirio 24-25


APPROVED

APPROVED

**Rhagair**

Mae'r strategaeth camfanteisio ar blant yn nodi ein blaenoriaethau ac yn gwneud ymrwymiad pendant i atal a mynd i'r afael â cham-fanteisio ar blant. Rydym yn cydnabod yr effaith ddifrifol y gall y math hwn o gam-drin ei chael ar blant, eu teuluoedd a'u cymunedau a'r angen i gydweithio â chymunedau ac asiantaethau partner i gynorthwyo plant i ddatblygu a ffynnu trwy gydol eu plentyndod ac wrth ddod yn oedolion.

Rydym yn deall nad oes un datrysiad. Mae'r ymatebion y mae eu hangen yn lluosog ac yn digwydd ar draws gwahanol lefelau o ymyrraeth gan olygu bod angen ymatebion cydgysylltiedig. Mae'r strategaeth hon yn cynnwys amrywiaeth o ymatebion i fynd i'r afael ag ymatebion atal, amddiffyn a chefnogi. Mae'n seiliedig ar dystiolaeth gyfredol o sut mae cymorth effeithiol yn edrych ac fe'i tanategir gan egwyddorion sy'n canolbwyntio ar blant ac wedi'u seilio ar hawliau plant.

Buddsoddwyd yn sylweddol yn ymatebion gwasanaethau i gamfanteisio ar blant yn y rhanbarth dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn wedi creu ymatebion strategol a gweithredol cryf ac effeithiol i sicrhau bod plant sy'n wynebu risg o niwed yn cael eu diogelu. Rydym yn deall y gall unrhyw blentyn ddioddef camfanteisio ac nad yw'r un plentyn byth yn gyfrifol am y cam-drin. Trwy godi ymwybyddiaeth ar draws y sector ac yn ein cymunedau, byddwn yn hyrwyddo'r ethos bod diogelu yn fusnes i bawb. Pan fydd plant a phobl ifanc yn wynebu mwy o risg o ddioddef camfanteisio, byddwn yn gweithio gyda theuluoedd i'w cynorthwyo a'u grymuso i ddiogelu eu plant.

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar y datblygiadau sy'n digwydd ar hyn o bryd sy'n cael eu goruchwylio a'u llywio gan ein helfen strategol o gyfarfod Camfanteisio ar Blant Amlasiantaeth (MACE). Rydym yn ymrwymedig i gynorthwyo plant a phobl ifanc yn y rhanbarth i fyw bywydau diogel a bodlon. Trwy ymrwymo i'r strategaeth hon, rydym yn sicrhau bod atal a mynd i'r afael â cham-fanteisio ar blant yn dal i fod yn faes blaenoriaeth allweddol i asiantaethau.

Gwyddom fod gan Gamfanteisio ar Blant hanes hir mewn cymdeithas. Gwyddom hefyd fod mynd i'r afael â cham-fanteisio ar blant yn her gymhleth, hirdymor. Fodd bynnag, rydym yn credu'n gryf bod modd atal camfanteisio ar blant a thrwy gydweithio ar draws asiantaethau mewn partneriaeth gyda theuluoedd, rydym yn ymrwymedig i ddarparu ymatebion ystyrlon ac effeithiol.

*"Byddai pobl yn dod i roi stŵr i mi a dweud wrthyf bod angen i mi wrando".*

**Cyflwyniad**

Mae Canfanteisio ar Blant yn derm ymbarél a ddefnyddir i ddisgrifio Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Camfanteisio Troseddol ar Blant, Masnachu Plant, Gangaiu, Caethwasanaeth dan Orfod a Phriodas Dan Orfod. Bydd y strategaeth hon yn canolbwyntio ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a

Chamfanteisio Troseddol ar Blant; fodd bynnag, mae'n tynnu ar ymchwil a llenyddiaeth ehangach lle y bo'n briodol i oleuo'r strategaeth.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Achos Difrifol wedi amlygu methiannau asiantaethau i amddiffyn plant y Camfanteisiwyd yn Rhywiol arnynt. Fe wnaethant nodi'r ffordd ddifrïol yr oedd profiadau personol plant yn cael eu cyfleu gan amlaf yn y cyfryngau, mewn polisi, a thrwy'r system cyfiawnder troseddol a oedd yn dwysáu sefyllfa lle'r oedd dealltwriaeth wael am Gam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant, a lle'r oedd plant yn aml yn cael eu gweld fel troseddwyr neu blant 'yn gwneud dewisiadau'. Ers yr amser hwn, bu ffocws manylach ym mhob Bwrdd Diogelu Rhanbarthol yng Nghymru er mwyn deall cymhlethdodau Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a gwreiddio ymatebion amlasiantaethol diogel a chymesur sy'n gwneud y plentyn yn ganolog i'n hymarfer diogelu amlasiantaeth.

Mae Camfanteisio Troseddol ar Blant yn fath o gam-drin plant; fodd bynnag, mae'n fath o gam-drin na chafodd ddiffiniad cenedlaethol tan yn ddiweddar o fewn Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019). Mae'r ymchwil a'r data i roi cymorth i ddeall y math hwn o gam-drin yn gyfyngedig, ac mae'r rhan fwyaf o'n gwybodaeth gyfredol yn deillio o ddull ymagwedd 'Llinellau Cyffuriau' tuag at Gamfanteisio Troseddo ar Blant. Nododd adolygiad mapio systematig a synthesis a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd yn 2019 bryderon parhaus bod ymatebion yn trin plant fel troseddwyr, a phlant 'yn gwneud dewisiadau', yn hytrach na phlant a oedd yn cael eu cam-drin ac yr oedd angen ymatebion diogelu amlasiantaeth cymesur arnynt. Rhaid i ni ymdrechu i ddeall Camfanteisio Troseddol ar Blant yn y ffordd yr ydym bellach yn deall Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant i'n galluogi i gydweithio'n effeithiol i ddiogelu plant sy'n wynebu mwy o risg neu y camfanteisir yn droseddol arnynt.

Mae byd o dechnoleg gynyddol a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol ar-lein soffistigedig yn creu ffactor cymhlethu ychwanegol o ran diogelu plant rhag dioddef camfanteisio. Y prif reswm dros hyn yw gallu drwgweithredwyr i baratoi plant i bwrpas rhyw heb unrhyw gyswllt corfforol, gan felly effeithio ar allu teuluoedd/gofalw(y)r, asiantaethau partner a chymunedau i nodi pryderon diogelu mewn ffordd amserol ac ataliol. Yn hytrach, ceir mwy o risg y byddant yn mabwysiadu dull adweithiol lle mae diogelu yn y cwestiwn. Y nodwedd gyffredin o fewn pob math o Gamfanteisio ar Blant yw'r elfen o gyfnewid. Efallai na fydd plant bob amser yn cydnabod natur gamfanteisiol y berthynas sy'n galluogi'r cyfnewid, ac efallai y byddant yn teimlo eu bod wedi rhoi cydsyniad. Fodd bynnag, ni all plant byth roi cydsyniad i gael eu cam-drin. Er bod ffactorau allweddol sy'n gwneud plentyn yn agored i niwed a dangosyddion risg allweddol a all oleuo ein harfer sy'n cael eu hadlewyrchu o fewn y strategaeth hon, mae ymchwil hefyd yn dangos tystiolaeth o'r gwir realiti; y gall Camfanteisio ar Blant ddigwydd, a'i fod yn digwydd i unrhyw blentyn ni waeth beth fo'u hil, rhyw, ethnigrwydd neu brofiadau personol yn ystod plentyndod.

Fel unrhyw fath arall o gam-drin plant, gwyddom y gall Camfanteisio ar Blant arwain at ganlyniadau hirhoedlog a all effeithio ar bob rhan o fywyd plentyn a'i ddeilliannau yn y dyfodol. Mae hyn yn mwyhau'r angen am gydgynhyrchu a dull amlasiantaeth cydgysylltiedig i sicrhau bod plant yn 'blant yn gyntaf', a'n bod yn darparu ymateb sy'n deall trawma wrth roi cymorth sy'n hybu eu diogelwch a'u lles yn y dyfodol.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) yn pwysleisio pa mor bwysig ydyw bod anghenion gofal a chymorth plant sy'n wynebu mwy o risg o gael eu hecsbloetio yn cael eu hystyried yn llawn yn yr un ffordd ag unrhyw blentyn. Felly, mae'r Gweithdrefnau'n symud i ffwrdd oddi wrth 'fodel asesu risg sy'n canolbwyntio mewn modd cul ar ymddygiad plant' a ddefnyddiwyd yn flaenorol i asesu Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant yn bennaf fel y SERAF, a thuag at asesu, cynllunio gofal, ymyrryd ac adolygu mewn modd cyfannol.

Gall Camfanteisio ar Blant ddigwydd o fewn amgylchedd teuluol lle mai aelodau'r teulu yw'r cyflawnwyr; fodd bynnag; fodd bynnag, mae'n aml yn digwydd o fewn amgylchiadau y tu allan i'r teulu lle mae'r cyflawnwyr y tu allan i'r teulu. Efallai y bydd neu na fydd profiadau niweidiol yn ystod plentyndod sy'n gwneud plentyn yn fwy agored i gam-drin teuluol; fodd bynnag, nid yw hyn yn gwneud y rhiant/gofalw(y)r yn gyfrifol am eu cam-drin. Felly, rhaid inni weithio mewn partneriaeth gyda theuluoedd i'w cynorthwyo i ddiogelu eu plant gan darfu ar y rhai sy'n eu niweidio.

Mae'r olaf o'r rhain hefyd yn gysylltiedig â'r cysyniad o ddiogelu cyd-destunol, ymagwedd a ddefnyddir i ddeall, ac ymateb i brofiadau plant hŷn o niwed y tu allan i'r teulu. Mae'n cydnabod y gall y gwahanol berthnasoedd y mae plant yn eu ffurfio yn eu hysgolion, grwpiau cyfoedion, cymunedau/cymdogaethau, cymdeithas ac ar-lein gynnwys niwed y tu hwnt i wybodaeth a rheolaeth teulu/gofalw(y)r y plentyn. Mae diogelu cyd-destunol yn ymagwedd at ddiogelu sy'n gofyn am yr un lefel o chwilfrydedd proffesiynol ag wrth asesu gallu rhieni, anghenion datblygiadol plant ac amgylchiadau teuluol.

Mae pob plentyn a'i amgylchiadau'n unigryw, ac nid oes un model gwasanaeth unigol a phrofedig ar gyfer cefnogi plant sy'n wynebu mwy o risg neu'r rhai y camfanteisir arnynt ar hyn o bryd. Mae sawl egwyddor sy'n bwysig i oleuo'r ffordd y mae ymarferwyr a gwasanaethau'n adnabod ac yn ymateb: canolbwyntio ar y plentyn, bod yn seiliedig ar gryfderau, hybu perthynas ymddiriedus, darparu ymateb cydweithredol cadarn a deall trawma.

Bydd yr egwyddorion hyn yn ganolog yn y strategaeth hon wrth ystyried ein dull 'PPS' yn y rhanbarth; Atal, Amddiffyn a Chefnogi ar gyfer Plant. Mae'r rhanbarth yn ymrwymedig i gefnogi'r plant cywir, yn y ffordd gywir ac ar y cyfle cyntaf, ac yn defnyddio'r model ymarfer Arwyddion Diogelwch (SoS) i danategu hyn.

**Y Cyd-destun Cenedlaethol**

Mae'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol: Adnabod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol (2019) yn cynnwys Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CRhaB) ac Ymddygiad Rhywiol Niweidiol (YRhN). Ar hyn o bryd, nid yw'r un lefel o gynllunio camau gweithredu'n genedlaethol yn digwydd ar gyfer Camfanteisio Troseddol ar Blant (CTaB). Fodd bynnag, mae Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan (2019) ynghylch Camfanteisio Troseddol ar Blant yn rhoi'r diffiniad a'r arweiniad cenedlaethol cyntaf i roi cymorth i adnabod plant a darparu ymatebion diogelu cymesur iddynt. Mae cymorth pellach i ymarferwyr ar y gweill gyda datblygiad Pecyn Cymorth Diogelu Cymhleth Cymru i fynd i'r afael â Chamfanteisio Troseddol ar Blant yn seiliedig ar ymchwil newydd. Bydd y pecyn cymorth hwn yn cael ei gyhoeddi yn 2022 gan CASCADE.

Y canllawiau statudol allweddol ar gyfer Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yng Nghymru yw Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 7 – Diogelu Plant rhag Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (2021). Mae'r canllawiau'n amlinellu ein dealltwriaeth bresennol am Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant fel math o Gam-drin Plant yn Rhywiol ac mae'n disgrifio'r prosesau ar gyfer ymateb o ran cynllunio gofal a chymorth mewn modd sy'n canolbwyntio ar blant a tharfu ar gyflawnwyr a'u herlyn. Cyhoeddwyd rhagor o wybodaeth am Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant gan rwydweithiau cyfundrefnol yn ddiweddar gan ICCSA (2022). Mae'r cyhoeddiad hwn yn canolbwyntio ar 6 ardal astudio, gan gynnwys Abertawe, ac yn cynnwys 33 astudiaeth achos ac yn cynyddu ein dealltwriaeth am y math hwn o niwed ac ymatebion gan asiantaethau.

Cyfyngedig yw'r data o ansawdd sydd ar gael i ategu adlewyrchiad gwirioneddol ar lefel genedlaethol o ba mor gyffredin yw pob math o Gamfanteisio ar Blant yn eu rhinwedd eu hunain, a phan fyddant wedi'u cysylltu'n gynhenid. Er y bydd y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol o gymorth i graffu'n fwy ar adrodd yn genedlaethol ar gyfer Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant fel math o Gam-drin Plant yn Rhywiol, gwyddom o Adolygiadau Ymarfer Plant bod ffactorau cymhlethu a all barhau i effeithio ar ansawdd gwybodaeth ystyrlon.

Mae Ffactorau Cymhlethu'n cynnwys:

- Lefelau isel o adrodd gan blant sydd efallai ddim yn eu hystyried eu hunain fel rhai y camfanteisir arnynt tra bo'r cam-drin yn digwydd.

- Lefelau amrywiol o ymwybyddiaeth aml-asiantaeth a dryswch ynghylch y diffiniadau o'r mathau hynny o gam-drin.

- Mae gwahanol ganfyddiadau a dealltwriaeth amlasiantaeth am gydsyniad a dewis, ac effaith rhagfarn broffesiynol fel 'mae'r plentyn yn ymddwyn mewn ffordd sy'n golygu cymryd risgiau a/neu'n dewis peidio â gwneud dewisiadau gwell', neu 'mae'r plentyn yn cael cyffuriau am ddim', yn gallu tanseilio cydnabyddiaeth i'r angen am amddiffyn plant rhag camfanteisio.

- Cofnodi a rhannu gwybodaeth mewn modd anghyson oherwydd dealltwriaeth broffesiynol wael fel a nodir uchod.

- Effaith gweithio ar draws ffiniau wrth goladu gwybodaeth o ansawdd. Mae achosion o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn aml yn croesi ffiniau Awdurdodau Lleol, heddluoedd a gwledydd o ran symudiadau cyflawnwyr a dioddefwyr.

Nod y strategaeth Camfanteisio ar Blant hon yw adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn digwydd yn y rhanbarth i oresgyn ffactorau cymhlethu o'r fath a darparu data ystyrlon ar draws pob math o gamfanteisio ar blant. O ran lleoliadau y tu allan i'r sir, er bod cyfrifoldeb ar yr Awdurdod sy'n derbyn i reoli pryderon diogelu uniongyrchol, rydym yn parhau i fod yn Rhieni Corfforaethol i'n plant hyd at 18 oed ac yn parhau i fod â dyletswydd gofal tuag at y rhai sy'n gadael gofal hyd at 25 oed.

Mae'r pwyslais ar ymyrryd yn gynnar ac atal o fewn Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ategu angen i adeiladu ar gydnerthedd unigolion, teuluoedd a chymunedau i gefnogi llesiant ac atal camdriniaeth. Nod y strategaeth hon yw mynd ati ymhellach i sefydlu cysylltiadau gweithio o fewn Cymorth Cynnar a gwasanaethau ataliol i gefnogi plant a theuluoedd.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn nodi bod rhaid i'n hymarfer gael ei danategu gan egwyddorion allweddol megis cyd-gynhyrchu gyda phlant a theuluoedd a/neu eu gofalw(y)r. Mae'n ddull sy'n hyrwyddo'r syniad o rannu pŵer a chyfrifoldeb gyda phlant a'u teuluoedd a/neu ofalwyr. Mae'n ddull sy'n seiliedig ar gryfder sy'n ystyried yr hyn sy'n bwysig i'r plentyn a'i deulu a/neu ofalw(y)r.

Rydym yn cydnabod bod polisïau a gweithdrefnau allweddol yn parhau i addasu a newid wrth i ymchwil a'n gwybodaeth am Gamfanteisio ar Blant esblygu. Rhaid i'n hymarfer esblygu gyda hynny i hybu'r deilliannau gorau posibl i blant a'u teuluoedd a/neu ofalw(y)r. Bydd hyn yn cynnwys mwy o ystyriaeth i ganllawiau statudol cenedlaethol sydd wedi'u cyhoeddi, megis;

- Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl, Cyfrol 7 – Canllawiau Statudol ynghylch diogelu plant rhag camfanteisio'n rhywiol ar blant'.

APPROVED

- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau addysg ynghylch cam-drin a chamfanteisio rhywiol gan gyfoedion, ac ymddygiad rhywiol niweidiol 2020.
- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Rannu lluniau noeth a hanner noeth: ymateb i ddigwyddiadau a diogelu plant a phobl ifanc.

*"Mae gormod o berthnasoedd i bobl ifanc yn canolbwyntio'n bennaf ar eu risg a'u niwed, ac nid ar eu hapusrwydd".*

APPROVED

**CYSUR: Datganiad Gweledigaeth Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru**

Mae BDPCGC ym ymrwymedig i ddiogelu plant trwy greu cymunedau sy'n llymach i gyflawnwyr a darparu amgylcheddau lle nad yw pobl yn bwrw bai ac sy'n fwy diogel ar gyfer plant.

Gweledigaeth Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yw bod yr holl bobl yn y rhanbarth yn byw eu bywydau heb drais, cam-drin, esgeuluso a chamfanteisio a bod eu hawliau yn cael eu gwarchod. Mae'r holl waith diogelu yn sensitif i ac wedi'i wreiddio'n gadarn mewn parch tuag at wahaniaethau mewn hil, ethnigrwydd, diwylliant, gallu, ffydd a chyfeiriadedd rhywiol. Mae ymgysylltu â'r holl randdeiliaid gan gynnwys plant, pobl ifanc, oedolion sy'n wynebu risg, eu teuluoedd, gofalwyr, darparwyr gwasanaethau a'r gymuned ehangach, a bod yn ymatebol i'w hanghenion, yn hanfodol er mwyn hyrwyddo gweledigaeth y Bwrdd.

**Amcanion y strategaeth - PPS:**

Bydd ein nodau i ddiogelu plant sy'n wynebu mwy o risg neu blant y camfanteisir arnynt yn cael eu llunio ar draws tair adran o fewn y cynllun gweithredu:

- **ATAL**
- **AMDDIFFYN**
- **CEFNOGI**

Er mwyn atal cam-drin, amddiffyn plant a chefnogi deilliannau ystyrlon ar eu cyfer rhaid i ni weithio gyda'n gilydd, rhaid i ni fod yn gydweithredol a chyfathrebu'n rheolaidd a gwreiddio trothwyon cymorth cyson.

Ein hegwyddorion nad ydynt yn agored i drafodaeth;

- Nid ymddygiad y plentyn yw'r broblem.
- Mae llais y plentyn o'r pwys mwyaf.
- Bydd plant bob amser yn 'blant yn gyntaf' hyd at 18 mlwydd oed.
- Byddwn ni'n adnabod plant ar y cyfle cyntaf ac yn darparu ymyriadau o ansawdd.
- Rhaid i anghenion gofal a chymorth pob plentyn a adnabuwyd fel yn sy'n wynebu mwy o risg o Gamfanteisio ar Blant gael eu hasesu yn yr un ffordd ag unrhyw blentyn arall.
- Byddwn ni'n gwerthfawrogi pŵer teuluoedd a/neu ofalw(y)r i ddiogelu plant pan nad hwy

sy’n achosi niwed.

- Byddwn yn darparu ymateb amlasiantaeth a chymesur i blant a'u teuluoedd a/neu ofalwyr.

**Diffiniadau a Gwersi Allweddol Gweithdrefnau Diogelu Cymru**

Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant (CRhaB)

Math o gam-drin plant yn rhywiol a all gynnwys rhyw neu unrhyw fath o weithgaredd rhywiol gyda phlentyn; cynhyrchu delweddau anweddus a/neu unrhyw ddeunydd anweddus arall sy'n cynnwys plant. Mae'n cynnwys plentyn hyd at 18 oed. Mae'n cynnwys rhyw fath o gyfnewid. Gall fod hwylusydd sy'n cael rhywbeth yn ychwanegol at y plentyn neu yn lle’r plentyn y camfanteisir arno/arni.

Rhaid i ni gofio nad yw Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant yn gategori hollgynhwysol ar gyfer pob math o gam-drin rhywiol mewn plant hŷn.

Y Gyfraith:

16 oed yw oedran cydsynio rhywiol yn y DU. Mae'r cyfreithiau yno i amddiffyn plant. Nid ydynt yno i erlyn plant dan 16 oed sy’n cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol pan fo’r ddwy ochr wedi cydsynio ond byddant yn cael eu defnyddio os oes cam-drin neu gamfanteisio wedi digwydd. Er mwyn helpu i amddiffyn plant iau, mae'r gyfraith yn dweud na all unrhyw un o dan 13 oed byth roi cydsyniad yn gyfreithiol i fod yn rhan o weithredoedd rhywiol. Mae'r gyfraith hefyd yn cynnwys darpariaeth amddiffyn ychwanegol ar gyfer pobl ifanc sy'n 16 i 17 oed.

Mae'n anghyfreithlon gwneud y canlynol;

Tynnu, dangos neu ddosbarthu ffotograffau anweddus. Talu am wasanaethau rhywiol neu drefnu gwasanaethau rhywiol.

Os yw rhywun sydd mewn swydd gyfrifol (er enghraifft athrawon neu weithwyr gofal) yn cymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol gydag unrhyw un o dan 18 oed.

Amodau cydsynio:

Rhan o'r rheswm pam nad yw Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant yn hanesyddol wedi bod yn cael ei ystyried yn fath o gam-drin yw oherwydd safbwyntiau cymdeithasol bod plant i'w gweld yn cydsynio i gymryd rhan mewn gweithredoedd rhywiol er mwyn cael rhywbeth neu er mwyn i rywun arall gael rhywbeth. Ni all plant roi cydsyniad i gael eu cam-drin. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y gallai plant gredu eu bod yn cydsynio neu y gallant ymddangos fel eu bod yn cydsynio a gall y cysyniad o 'amodau cydsynio' ein cynorthwyo i ddeall hyn.

Cam-drin rhwng cyfoedion


Gellir adnabod cam-drin rhwng cyfoedion mewn ffurfiau amrywiol, ac maent yn cynnwys o fewn 'gangiau', cam-drin domestig, Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant, Camfanteisio Troseddol ar Blant, ymddygiad rhywiol niweidiol (YRhN), a/neu drais ar sail rhywedd. Rhaid i ni gydnabod ac ymateb bob amser i bob plentyn fel plentyn yn gyntaf a rhywun y mae angen ei ddiogelu a'i gefnogi.

Ymddygiad Rhywiol Niweidiol

Gellir diffinio ymddygiadau rhywiol niweidiol (YRhN) fel yr ymddygiadau rhywiol a fynegir gan blant o dan 18 oed sy'n niweidiol tuag atynt hwy eu hunain neu tuag at eraill. Mae YRhN yn cynnwys ymddygiadau â chyswllt a di-gyswllt. Mae Hackett (2010) wedi cynnig model continwwm i ddangos yr ystod o ymddygiadau rhywiol a gyflwynir gan blant i gynorthwyo gweithwyr proffesiynol i nodi pa ymddygiadau a allai fod yn niweidiol a pha rai sy'n cynrychioli datblygiad rhywiol iach. Hackett, S (2010). Children, young people and sexual violence.

Mae Diagram 1  yn adlewyrchu sut y gall gorfodaeth, camddefnyddio pŵer, trais a diffyg cydsyniad a dewis orgyffwrdd rhwng plant sy'n arddangos YRhN a CRhaB.  Mae'r diagram yn awgrymu bod CRhaB yn fwy tebygol o gael ei gynrychioli gan drais rhywiol tuag at blant hŷn, yn aml yng nghyd-destun perthynas, ac yn fynych lle camfanteisir yn rhywiol ar fenywod ifainc gan naill ai unigolion neu grŵp (oedolion a/neu blant). Dychmygir bod YRhN yn gam-drin sy'n amlach na pheidio’n cynnwys plant sy'n niweidio dioddefwyr cyn-y-glasoed iau o'r ddau ryw mewn cyd-destunau teuluol neu gymunedol.

Diagram 1




(Hackett et al 2016)

**Camfanteisio Troseddol ar Blant (CTaB)**

Diffiniwyd CTaB o fewn Canllawiau Ymarfer Diogelu Cymru Gyfan fel math o gam-drin plant sy'n gofyn am ymateb diogelu cymesur. Mae'n cynnwys plentyn hyd at 18 oed.

Mae'n cynnwys cyfnewid, a dulliau o orfodaeth a rheolaeth a ddefnyddir gan gyflawnwyr i gamfanteisio ar blant o fewn gweithgareddau troseddol megis symud cyffuriau neu arian, tyfu

cyffuriau, troseddau stryd, twyll budd-daliadau a thwyll mewnfudo.

Mae’n hanfodol bod ymarferwyr ac asiantaethau yn trin plant fel 'plant yn gyntaf' ac mae'n rhaid iddynt edrych y tu hwnt i'r ymddygiad y gallant fod yn ei ddangos er mwyn cyflawni hyn. Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru bellach yn cysoni CTaB â phob math arall o gam-drin plant, sy'n golygu bod yn rhaid i anghenion gofal a chymorth plant y nodwyd eu bod yn wynebu mwy o risg neu blant y camfanteisir arnynt gael eu diwallu yn yr un ffordd ag unrhyw blentyn. Mae’r amodau cydsynio yr ydym yn eu deall ar gyfer CRhAB yn drosglwyddadwy i CTaB. Rhan o'r rheswm pam nad yw CTaB yn hanesyddol wedi cael ei ystyried yn fath o gam-drin yw oherwydd safbwyntiau cymdeithasol bod plant i'w gweld yn cydsynio i gymryd rhan mewn gweithredoedd troseddol er mwyn cael rhywbeth neu er mwyn i rywun arall gael rhywbeth. Fel yn achos CRhaB, gwyddom y bydd cyflawnwyr yn defnyddio dulliau gwahanol i alluogi eu cam-drin i ddigwydd, er enghraifft un math o CTaB yw Llinellau Cyffuriau.

Rydym yn gwybod y gall CTaB fod yn gysylltiedig â mathau eraill o gam-drin, er enghraifft gall plant brofi CTaB ar yr un pryd â chamfanteisio rhywiol. Felly, gall CTaB fod yn un rhan o brofiad cymhleth y plentyn o gam-drin cydgysylltiedig.

**Llinellau Cyffuriau**

Model a ddefnyddir gan gyflawnwyr i fanteisio'n droseddol ar blant yw Llinellau Cyffuriau. Mae'n derm a ddefnyddir i ddisgrifio gangiau cyfundrefnol sy'n camfanteisio ar blant i allforio cyffuriau anghyfreithlon i un neu fwy o ardaloedd mewnforio gan ddefnyddio llinellau ffôn symudol pwrpasol neu fathau eraill o "linellau bargeinion" ar draws ffiniau sirol yn aml o ardaloedd trefol i ardaloedd gwledig. Mae’n bosibl hefyd y camfanteisir ar blant i storio eitemau fel cyffuriau ac arian. Rydym wedi ymrwymo i gychwyn gweithdrefnau diogelu i gefnogi unrhyw blentyn sydd wedi'i leoli o fewn y rhanbarth heb unrhyw esboniad credadwy a diogel.

**Cam-drin Ar-lein**

Mae cam-drin ar-lein, y cyfeirir ato'n aml fel cam-drin â chymorth technoleg, yn golygu unrhyw fath o gam-drin sy'n cael ei hwyluso trwy dechnoleg. Bydd y strategaeth hon yn canolbwyntio ar CrhaB a CTaB ar-lein; fodd bynnag mae cam-drin ar-lein yn derm ymbarél ar gyfer mathau eraill o gam-drin gan gynnwys mathau eraill o gamfanteisio megis radicaleiddio plant.

Gall natur llwyfannau ar-lein ac ymddygiad cyflawnwyr sy’n golygu eu bod yn newid yn gyflym olygu bod gwybodaeth am gam-drin ar-lein yn dyddio'n gyflym. Mae'r adnodd 'Think you Know' gan CEOP yn darparu gwybodaeth gyfoes hygyrch i gefnogi gwybodaeth ac ymarfer. https://www.thinkuknow.co.uk/

Gall CRhaB a CTaB ar-lein ddigwydd trwy unrhyw fath o dechnoleg, megis rhwydweithio cymdeithasol, ystafelloedd sgwrsio, negeseuon gwib, gwefannau hapchwarae, gwefannau chwilio am gariad a llawer mwy o lwyfannau. Fel gyda mathau o gamfanteisio sy’n ymwneud â chyswllt, efallai na fydd y plentyn yn adnabod ei fod yn cael ei gam-drin.

Nid yw cam-drin ar-lein yn fath o gam-drin ar wahân i gam-drin â chyswllt, ac ni ddylid ystyried bod effaith y niwed yn llai difrifol.



APPROVED

Pam fod cyflawnwyr yn defnyddio technoleg fel rhan o gam-drin?

Gall paratoi i bwrpas rhyw ar-lein fod yn llawer haws nag all-lein. Mae gemau, cyfryngau cymdeithasol, llwyfannau ffrydio byw, ac ystafelloedd sgwrsio yn hwyluso proses lle gall cyflawnwr gysylltu'n gyfrinachol â phlant. Gall cyflawnwyr greu proffiliau ar-lein lluosog a gallant esgus bod yn blant i roi cymorth i gyflawni eu gweithredoedd cam-drin.

Gall cyflawnwyr ddarganfod llawer am blant unigol cyn iddynt gysylltu i roi cymorth i baratoi'r plentyn i bwrpas rhyw. Gall fod llai o fesurau rheoli gan rieni. Mewn llawer o achosion, bydd cyflawnwyr yn defnyddio technoleg i hwyluso neu waethygu eu cam-drin.

**Deall 'gangiau'**

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) yn rhoi arweiniad ar sut y gall 'gangiau' cyfundrefnol edrych; fodd bynnag, nid oes diffiniad Cenedlaethol i gefnogi cyd-ddealltwriaeth a/neu gynorthwyo i ddeall y gwahanol gydadwaith o ran deinameg. Mewn cymdeithas gellir cyfeirio at gyfoedion yn dod at ei gilydd fel 'gang'. Fodd bynnag, yn y rhanbarth rydym yn cydnabod pwysigrwydd cysylltiadau cyfoedion a bod yn rhan o grŵp cyfoed yn y gymuned.

Credwn y dylid ystyried 'gang' pan fo dynameg yn fwy cyfundrefnol a bod tystiolaeth o anghydbwysedd pŵer, gorfodaeth a rheolaeth. Mae'n ddull sy'n cael ei ddefnyddio i fytholi troseddoldeb a cham-drin, ac felly os oes pryderon y gallai plentyn fod yn wynebu risg o niwed o ganlyniad i weithgarwch gangiau mae angen eu hamddiffyn a'u cefnogi.

Mae ymchwil yn ein hysbysu y gall plant wynebu risg o gam-fanteisio troseddol ar blant o fewn 'gangiau' ac y gallai fod elfennau o gam-drin gan gyfoedion. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni fod yn hynod wyliadwrus o'r risg uwch o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant o fewn 'gangiau' i BOB rhyw. Gall cyflawnwyr ddefnyddio Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant i:

- Arfer pŵer a rheolaeth dros aelodau
- Derbyn plant newydd i'r gang
- Ennill statws yn y gang
- Rheolaeth trwy gamfanteisio'n rhywiol ar eraill sy'n golygu llawer iddynt h.y. cyfoedion neu aelodau o'r teulu
- Defnyddio gweithredoedd rhywiol fel arf rheolaeth mewn gwrthdaro â 'gangiau' y maent yn ymgiprys â hwy.

Mae Masnachu Plant yn fath o Gaethwasiaeth Fodern a Chamfanteisio ar Blant. Mae llawer o blant yn cael eu masnachu i'r DU o wledydd eraill; fodd bynnag, mae Masnachu Plant hefyd yn cynnwys plant sy'n cael eu symud o fewn yr un wlad, rhwng ffiniau Awdurdodau Lleol neu hyd yn oed symud o fewn yr un cod post.

**Masnachu plant**

Mae plant yn cael eu masnachu er mwyn i gyflawnwyr eu cam-drin, ac mae'n fath o gamfanteisio ar blant. Gall gynnwys, ymhlith gweithredoedd eraill:

- Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant
- Camfanteisio Troseddol ar Blant
- Priodas dan orfod
- Caethwasanaeth domestig
- Tyfu planhigion anghyfreithlon
- Mabwysiadu anghyfreithlon
- Llafur dan orfod

Mae Masnachu Plant yn gygdgsylltiedig ac mae'n rhaid ei ddeall yng nghyd-destun cam-drin y plentyn.

Masnachu Plant, Y DU 2018: Camfanteisio


Math

Llafur Rhywiol

Caethwasanaeth Domestig

Anhysbys

Cynaeafu Organau



Ystadegau’r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol

Mae masnachu plant yn cynnwys tair elfen,

Gweithredu: Recriwtio, cludo, trosglwyddo, llochesu neu dderbyn, plentyn sy'n cynnwys elfen o symud o un lle i'r llall.

Camfanteisio: Ceir tystiolaeth neu achos rhesymol i gredu bod plentyn yn dioddef camdriniaeth trwy gam-drin rhywiol, troseddol, llafur dan orfod neu gaethwasanaeth domestig, caethwasiaeth, camfanteisio ariannol, mabwysiadu anghyfreithlon, neu dynnu organau'r plentyn yn anghyfreithlon.

Mae'n cynnwys plentyn: Mae'n digwydd i'r rhai hyd at 18 oed.

**Y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM)**

Y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol yw system adnabod a chefnogaeth y DU ar gyfer dioddefwyr posibl Caethwasiaeth Fodern. Rhaid i bob plentyn a adnabuwyd fel un a allai fod wedi cael ei fasnachu gael ei atgyfeirio at y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol gan 'ymatebwr cyntaf'. Yr un yw’r broses atgyfeirio ar gyfer oedolion; fodd bynnag, byddwn yn canolbwyntio ar blant o fewn y Strategaeth Camfanteisio ar Blant hon. Rhaid cwblhau'r atgyfeiriad at y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (NRM) ar yr adeg pan fo'r tair elfen o Fasnachu Plant wedi cael eu hadnabod gan Ymatebwr Cyntaf.

Rhaid i'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol gael ei ddiweddaru'n rheolaidd gan yr ymatebwr cyntaf

APPROVED

i ategu penderfyniad cychwynnol a phenderfyniad ar seiliau pendant sy'n cael ei wneud. Nid yw'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol byth yn disodli cyfrifoldebau diogelu'r Awdurdod Lleol, yn hytrach maent yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu lefelau cofleidiol o ddiogelwch a chymorth i blant

Rhaid cwblhau'r atgyfeiriad at y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol ar-lein yn: https://www.gov.uk/guidance/report- modern-slavery-as-a-first-responder

Yng Nghymru, mae angen atgyfeiriad pellach at y Gwasanaeth Masnachu Plant Annibynnol Rhanbarthol. Gallant weithio'n uniongyrchol gyda phlant wedi'u masnachu i'w helpu i adeiladu dyfodol cadarnhaol, cynorthwyo plant i ymgodymu â'r system cyfiawnder troseddol, rhoi cymorth ymarferol, emosiynol a seicolegol a hefyd hyfforddi gweithwyr proffesiynol i sylwi ar yr arwyddion a darparu ymatebion sy'n deall trawma i blant sydd wedi'u masnachu.

Gellir dod o hyd i'r atgyfeiriad yn;

https://www.barnardos.org.uk/what-we-do/protecting-children/trafficked-children/ICTG-service-referral-form.


**Ymdrin â'r nodweddion cyffredin mewn achosion o Gamfanteisio ar Blant**

Rhaid i ymarferwyr fod yn effro i broffiliau soffistigedig, bythol newidiol cyflawnwyr sy'n gallu ei gwneud anodd adnabod cyflawnwyr a tharfu arnynt. Fodd bynnag, y brif nodwedd ym mhob math o Gamfanteisio ar Blant yw cyfnewid.

Y ffaith ei fod yn cynnwys cyfnewid yw'r hyn sy'n gwneud camfanteisio'n wahanol i fathau eraill o gam-drin plant. Gall cyfnewid fod ar ffurf rhoi rhywbeth a/neu ei dynnu'n ôl a gall amrywio o ran cyd-destun, er enghraifft gallai'r cyfnewid fod yn ddiriaethol, a/neu gall gynnwys diwallu angen emosiynol, neu'r angen i fod yn rhydd o drais corfforol neu fygythiadau i rywun sy'n golygu llawer i'r plentyn. Gall y patrwm cam-drin gynnwys anghydbwysedd pŵer, gorfodaeth, a diffyg rheolaeth.

Mae Diagram 2 yn dangos bod gwahanol fathau o gamfanteisio'n aml yn digwydd ar yr un pryd ac yn rhannu'r un nodweddion, dulliau ac ymddygiad cysylltiedig sy'n gallu achosi rhwystrau i adnabod, atal ac ymateb yn briodol.

APPROVED




(Firmin et al, 2019)

Yn hanesyddol roedd CRhaB yn aml yn cael ei weld ymhlith gweithwyr proffesiynol fel bai'r person ifanc, o ganlyniad i'w 'ymddygiad peryglus'.

Mae grŵp Seneddol wedi cydnabod bod diwylliant tebyg yn dal i fodoli mewn rhai ardaloedd yn y DU lle mae CRhaB yn y cwestiwn, sy'n awgrymu rhywfaint o ddewis ar ran y plentyn i droseddu. (Y Grŵp Seneddol Hollbleidiol, 2016, Missing children and Adults, Adroddiad).

**Sut mae cyflawnwyr yn edrych?**

Gall y cyfryngau bortreadu rhai nodweddion a phroffiliau cyflawnwyr sy'n dylanwadu ar farn y cyhoedd, ac yn camarwain cymunedau. Gall y categorïau isod fod o gymorth i adnabod proffiliau cyflawnwyr;

- Unigolion sy'n cam-drin plant unigol er mwyn eu boddhad rhywiol/ mantais ariannol/ mantais arall hwy eu hunain

- Unigolion sy'n cam-drin grwpiau o blant er mwyn eu boddhad rhywiol/ mantais ariannol/ mantais arall hwy eu hunain

- Unigolion sydd wedi'u cysylltu'n llac sy'n gweithredu mewn grwpiau i gam-drin plant er mwyn eu boddhad rhywiol/ mantais ariannol/ mantais arall hwy eu hunain

- Grwpiau cyfundrefnol o unigolion sy'n cam-drin plant er mwyn eu boddhad rhywiol/


mantais ariannol/ mantais arall hwy eu hunain

Mae'n bwysig nodi nad oes disgrifiad nodweddiadol o sut y gall cyflawnwr edrych. Mae'r rhai sy'n camfanteisio ar eraill yn grŵp amrywiol a byddant yn cael eu cynrychioli ar draws y ddau ryw, dosbarthiadau cymdeithasol ac ethnigrwydd.

Rhaid i ni ddeall amgylchiadau cyd-destunol y plentyn o fewn dull cyfannol sy'n dadansoddi anghenion gofal a chymorth unigol y plentyn a'r teulu.

**Diogelu Cyd-destunol**

Mae'r Rhwydwaith Diogelu Cyd-destunol yn disgrifio Diogelu Cyd-destunol fel dull o ddeall ac ymateb i brofiadau plant o niwed sylweddol y tu allan i deuluoedd a all fod y tu hwnt i'w rheolaeth.




(Bronfenbrenner, 1979 Firmin, 2017)

Mae gweithdrefnau Diogelu Cymru hefyd yn rhoi cydnabyddiaeth genedlaethol i'r cysyniad o Ddiogelu Cyd-destunol sy'n canolbwyntio ar yr effaith amgylcheddol ar blant o fewn ysgolion, cyfoedion, cymdogaethau/cymunedau ac o fewn y gymdeithas ehangach.

Mae'r Diagram uchod yn adlewyrchu'r ffaith bod ymgysylltiad plant o fewn y cyd-destunau hyn y

tu allan i'r teulu hefyd yn gallu llywio, a chael ei lywio gan, yr hyn sy'n digwydd gartref. Felly, pan fydd plant yn agored i gamfanteisio yn eu hysgol, grŵp cyfoedion, cymunedau, neu gymdeithas ehangach, gall hyn dorri eu perthnasoedd teuluol a thanseilio gallu eu rhieni/gofalwyr i gadw'r plentyn yn ddiogel. Yn yr un modd, os yw plant yn agored i niwed o fewn eu teuluoedd gall hyn effeithio ar eu bregusrwydd mewn lleoliadau y tu allan i'r teulu.

Y Plentyn:

– Weithiau nid eir i'r afael ag effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod; fodd bynnag rydym hefyd yn gwybod nad yw plant bob amser yn profi'r fath adfyd ond efallai y bydd patrymau o angen nas diwallwyd.

Y Cartref:

– Gall systemau Amddiffyn Plant traddodiadol ganolbwyntio'n llwyr ar y rhiant, er enghraifft mynychu dosbarth rhianta i wella sefyllfa; fodd bynnag gall cyflawnwyr amharu ar berthynas deuluol a thanseilio'r ymdrechion sy'n cael eu gwneud gan rieni/gofalwyr.

Ysgolion:

Dylai'r ysgol fod yn lle diogel i blentyn; fodd bynnag, gall cyflawnwyr dargedu ysgolion a gall hynny gynnwys camfanteisio ar blant eraill fel rhan o broses y cyflawnwr i baratoi i bwrpas rhyw.

Y Grŵp Cyfoedion:

Mewn plant hŷn mae cyd-destun perthnasoedd cyfoedion yn dod yn fwy arwyddocaol a gall fod yn fwy dylanwadol o ran normau cymdeithasol na'r teulu. Er enghraifft, o ran troseddau ieuenctid a throseddoldeb sy'n gysylltiedig â gangiau, mae plant yn aml yn cyflawni troseddau mewn grwpiau na fydden nhw wedi eu cyflawni ar eu pennau eu hunain. Gall cyfoedion fod yn ffynhonnell amddiffyn neu gam-drin.

Cymdogaethau/ Cymunedau:

O fewn cymunedau gall plant fod yn agored i gamdriniaeth, ac mae'n rhaid i ni ystyried y meysydd lle gall camdriniaeth ddigwydd o fewn ein gwaith asesu, cynllunio gofal, ymyrryd, ac adolygu deilliannau. Pan fo tystiolaeth o fwy o risg y camfanteisir ar blentyn, rhaid i ni ystyried ymyriadau i fynd i'r afael â'r maes yn ogystal ag anghenion gofal a chymorth unigryw'r plentyn.

Ystyried natur agored i niwed a risg o fewn Asesiad:

Gall natur agored i niwed plant gynyddu'r risg o gamfanteisio; fodd bynnag, mae ymchwil hefyd yn dweud wrthym nad yw'n rhagfynegydd awtomatig gan y gall natur agored i niwed gydfodoli â cham-drin ond peidio â bod yr hyn sy'n achosi camdriniaeth. Mae ein gwybodaeth am natur agored i niwed yn ddefnyddiol dim ond os yw'n rhan o asesiad cyfannol sy'n ystyried amgylchiadau pob plentyn, eu strwythurau amddiffynnol ac yn canolbwyntio ar darfu ar gyflawnwyr.

Mae'r Diagram isod yn dangos amodau cydgysylltiedig cam-drin. Mae'n cefnogi dull cyfannol o asesu. Er mwyn galluogi asesiad i fod yn gyfannol rhaid iddo ystyried y cyflawnwr, ochr yn ochr ag anghenion y plentyn a natur agored i niwed bosibl (y dylanwedir arni gan ffactorau mewnol ac allanol) a digonolrwydd, neu annigonolrwydd, strwythurau amddiffynnol.

APPROVED




(Beckett, 2011)

Ffactorau y nodwyd eu bod yn cynyddu'r siawns o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant

•Mwy tebygol o fod yn fenywaidd

•Profiad blaenorol o gam-drin rhywiol yn y teulu, ni waeth beth fo'r rhyw a rhywedd.

•Cam-drin emosiynol gan ddynion.

•Nifer o symudiadau mewn amgylchiadau byw.

•Perthnasoedd negyddol yn bennaf â chyfoedion a/neu ddim cyfeillgarwch.

Llai tebygol i niwed a cham-drin ddigwydd:

•Perthynas gadarnhaol ag oedolyn.

•Perthnasoedd cadarnhaol â chyfoedion.

•Nifer uchel o asiantaethau yn ymwneud â'r plentyn. Fodd bynnag, rhaid i hwn fod yn ymateb cydgysylltiedig nad yw'n gorlethu'r plentyn.

Cydnabyddir y gall cam-drin rhywiol a thrais trwy Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ddigwydd heb i unrhyw natur agored i niwed fod yn bresennol.

APPROVED

*Cyf: 'Keeping Safer?', Prifysgol Caerdydd, 2019.*

<u>Ffactorau y nodwyd eu bod yn cynyddu'r siawns o CTaB</u>

•Yn fwy tebygol o fod yn wrywaidd; fodd bynnag, mae'r risg o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant i fenywod yn dal i fod yn amlwg yng nghyd-destun gangiau.

•Gwahardd o'r ysgol

•Ansefydlogrwydd

•Perthynas negyddol yn bennaf â chyfoedion a/neu ddim cyfeillgarwch

Llai tebygol y bydd niwed yn digwydd:

•Perthynas gadarnhaol ag oedolyn

•Perthnasoedd cadarnhaol â chyfoedion

•Nifer uchel o asiantaethau'n ymwneud â'r plentyn. Fodd bynnag, rhaid i hwn fod yn ymateb cydgysylltiedig nad yw'n gorlethu'r plentyn.

*Cyf: Adolygiad mapio systematig a synthesis, Prifysgol Caerdydd, 2019.*

Er mwyn sicrhau arferion o ansawdd sy'n cefnogi deilliannau mwy diogel i blant, mae ein disgrifiad o 'sut mae da'n edrych' yn estyniad ar ein hegwyddorion ymarfer nad ydynt yn agored i drafodaeth.

*Sut fydd da yn edrych?*

Nid ymddygiad y plentyn yw'r broblem. Gall unrhyw blentyn ddioddef camfanteisio

Mae asesiadau risg yn aml yn canolbwyntio ar ymddygiad y plentyn, er enghraifft offer sgorio proffesiynol sy'n dod i'r casgliad a yw plentyn yn wynebu mwy o risg o gamfanteisio. Gall dulliau o'r fath felly annog gweithwyr proffesiynol i ganolbwyntio ar ymddygiad y plentyn fel y 'broblem' y mae'n rhaid i ni weithio i'w hatal/ffrwyno.

Gallwn feio plant yn anfwriadol am eu cam-drin pan fyddwn yn canolbwyntio ar ymddygiad y plentyn fel y broblem. Byddwn yn ymgysylltu a grymuso plant, teuluoedd/gofalwyr, a gweithwyr proffesiynol i adnabod cyflawnwyr, a mannau a lleoedd wrth roi cymorth i blant i alluogi eu hadferiad gan ddefnyddio Asesiad Lles cyfannol.

Nid yw plant byth yn eu rhoi eu hunain mewn perygl o gael eu cam-drin.

Mae llais y plentyn o'r pwys mwyaf.

Byddwn bob amser yn rhoi llais i blant ac yn gwrando arnynt. Byddwn ni'n ymdrechu i ddarparu rhwydwaith proffesiynol cyson i hyrwyddo perthnasoedd yn llawn ymddiriedaeth a'r arfer o'u cynnwys i gydgynhyrchu eu cynlluniau sy'n canolbwyntio ar eu deilliannau eu hunain.

Rydym yn deall bod pob plentyn yn unigryw, ac rydym yn deall y bydd canfyddiad plant am Gamfanteisio ar Blant yn amrywio o blentyn i blentyn. Byddwn ni'n gweithio gyda phlant i ddeall eu profiadau o'u safbwynt hwy, ac yn gweithio ar eu cyflymder hwy i leihau niwed ac i hyrwyddo eu deilliannau eu hunain.

APPROVED

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd perthynas yn llawn ymddiriedaeth ag oedolyn diogel, a bod cyrraedd sefyllfa o ymddiriedaeth gyda phlentyn sydd wedi cael ei siomi neu ei frifo, neu'r ddau, yn gallu cymryd amser a dyfalbarhad.

Bydd plant yn 'blant yn gyntaf' hyd at 18 mlwydd oed.

Rydym yn deall y gellir ystyried bod plant hŷn yn 'gwneud dewisiadau'; fodd bynnag mae camfanteisio’n achos o gamddefnyddio pŵer sy'n tynnu rheolaeth plentyn i ffwrdd. Ni all plentyn byth roi cydsyniad i gael ei gam-drin.

Nid yw camfanteisio’n dod i ben ar ben-blwydd plentyn yn 18 oed ac felly byddwn yn gweithio gyda gwasanaethau a ddarperir i oedolion i sicrhau bod pontio'n broses yn hytrach na digwyddiad. Byddwn ni'n adnabod plant ar y cyfle cyntaf ac yn darparu ymyriadau o ansawdd.

Rydym yn gwerthfawrogi pŵer teuluoedd a/neu ofalw(y)r i ddiogelu plant pan nad hwy sy’n eu cam-drin.

Rydym yn gwerthfawrogi cyfranogiad teuluoedd a/neu ofalw(y)r. Rydym yn deall y gall camfanteisio ddigwydd heb yn wybod i deulu a/neu ofalw(y)r plentyn a/neu’r tu hwnt i’w rheolaeth.

Byddwn yn gweithio gyda theuluoedd a/neu ofalwyr plentyn i sicrhau nad ydynt yn teimlo ar eu pennau eu hunain, gan eu cynorthwyo a'u grymuso ar yr un pryd i allu diogelu eu plant.

Bydd asiantaethau yn y rhanbarth yn cefnogi hyfforddiant a datblygiad ar gyfer ei staff ynghyd ag asiantaethau partner, cydweithwyr yn y trydydd sector, a chymunedau i roi cymorth i adnabod yn gynnar, asesu, ymyrryd, cynllunio gofal a chyflawni deilliannau gwell i blant.

Mae ein Gwasanaeth Cymorth Cynnar yn darparu dull sy'n seiliedig ar gryfderau sy'n cefnogi egwyddorion a gwerthoedd craidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, ac mae'n cyd-fynd â'n model ymarfer Arwyddion Diogelwch a ddefnyddir ar draws y Gwasanaethau Plant.

Ein nod yw ymgysylltu’n ddiogel â phlant o fewn eu rhwydweithiau cartref a rhwydweithiau teuluol ehangach gan fod yn ataliol, gan symud i ffwrdd oddi wrth ymatebion adweithiol i ddiogelu plant.

Rhaid i anghenion gofal a chymorth pob plentyn a nodir fel un sy’n wynebu risg uchel o Gamfanteisio ar Blant gael eu hasesu yn yr un ffordd ag unrhyw blentyn arall.

Gwasanaethau Plant fydd yn cefnogi plant y mae arnynt angen ymateb diogelu statudol yn yr un modd ag unrhyw blentyn arall y mae angen ei amddiffyn a’i gefnogi.

I atal cam-drin, amddiffyn plant a chefnogi eu deilliannau ystyrlon mae'n rhaid i ni weithio gyda'n gilydd, rhaid i ni fod yn gydweithredol a chyfathrebu'n rheolaidd a gwreiddio trothwyon cymorth cyson.

Rydym yn deall bod gan bob asiantaeth rywbeth unigryw i'w gynnig o fewn gwaith asesu, cynllunio gofal, ymyrryd ac wrth adolygu deilliannau plant a fydd yn ei gwneud yn bosibl cyflawni ein dull 'PPS'.

**Rôl Asiantaethau**

Mae'r asiantaethau a restrir isod yn ymwneud â gwasanaethau rhanbarthol. Fodd bynnag, bydd gan ardal pob awdurdod lleol ei gwasanaethau pwrpasol ei hun sy'n berthnasol i'w hardal.

APPROVED

**Yr Heddlu**
Mae Heddlu Dyfed-Powys yn asiantaeth arweiniol o ran adnabod a diogelu plant rhag dioddef camfanteisio.

Gall plentyn gael cyswllt â gwahanol weithwyr proffesiynol a thimau o fewn yr heddlu ar yr un pryd neu ar adegau gwahanol, er enghraifft:

- Gwasanaeth Cyswllt yr Heddlu ag Ysgolion
- Plismona Cymunedol o fewn cymdogaethau.
- Diogelu plant sy'n ddioddefwyr y tu allan i Gamfanteisio ar Blant.
- Diogelu plant sy'n ddioddefwyr Camfanteisio ar Blant
- Plant sy'n cael eu hadnabod fel rhai sy'n ymwneud â throseddu.
- Cymorth a phroses adnabod gan CEOP ar gyfer cam-drin rhywiol ar-lein a pharatoi i bwrpas rhyw.

Mae rôl Heddlu Dyfed Powys yn cynnwys tarfu ar gyflawnwyr a'u herlyn i ddiogelu'r holl ddioddefwyr o fewn y gymuned, gan gynnwys plant rhag dioddef camfanteisio. Mae ganddyn nhw ddyletswydd gofal hefyd tuag at blant i sicrhau eu bod yn ddiogel a bod eu hanghenion cymorth tymor hwy yn cael eu hyrwyddo.
Os yw plant wedi'u lleoli y tu allan i'r rhanbarth mae dyletswydd ar yr heddlu lle mae'r niwed yn digwydd i ddiogelu'r plentyn ar y cyd â Thîm Gwaith Cymdeithasol yr Awdurdod sy'n derbyn ac sy'n lleoli.

**Addysg**
Mae darparu amgylchedd addysgol ar draws y rhanbarth sy'n defnyddio dull 'ysgol gyfan' gan gynnwys Addysg Rhyw a Chydberthynas, cymorth llesiant ac addysg am gam-drin rhwng cyfoedion i ddeall materion fel anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, cydsyniad a chydberthynas iach yn ganolog i atal, amddiffyn, a chymorth.

Mae gofyniad statudol i blant gael eu haddysgu hyd at a chan gynnwys y flwyddyn maen nhw'n troi'n 16 oed, a'u diwrnod olaf o addysg ysgol statudol yw'r dydd Gwener olaf ym Mehefin yn y flwyddyn maen nhw'n troi'n 16 oed. Mae ysgolion yn rhoi'r cyfle i blant ddatblygu perthnasoedd â gweithwyr proffesiynol dros gyfnodau maith gan ddathlu cyfnodau o lwyddiant gyda'i gilydd a chefnogi plant mewn cyfnodau o argyfwng.

Mae gan ddarpariaethau addysg gyfle hefyd i arsylwi ac ystyried deinameg perthnasoedd rhwng cyfoedion a'u dylanwad ar ei gilydd o fewn amgylchedd yr ysgol.

Mae eu cyfrifoldeb statudol yn ymestyn y tu hwnt i amgylchedd yr ysgol i fonitro plant sy'n cael eu haddysgu gartref.

Bydd staff yn cefnogi cynlluniau unigol plant a bydd uwch gynrychiolydd yn mynychu cyfarfodydd MACE strategol chwarterol.

**Addysg anstatudol ôl-16**
Mae'r cyfrifoldebau statudol am ddiogelu yn berthnasol i bob plentyn o dan 18 oed, ac felly mae darparwyr ôl-16 h.y., chweched dosbarth, colegau a darpariaethau hyfforddiant yn parhau i fod â rôl ganolog mewn gwaith atal, amddiffyn, a chymorth ar gyfer plant.

Fel addysg statudol, mae gan blant gyfle i ddatblygu perthnasoedd â gweithwyr proffesiynol dros gyfnodau maith gan ddathlu cyfnodau o lwyddiant gyda'i gilydd a chefnogi plant mewn cyfnodau o argyfwng. Mae gan staff gyfle i arsylwi ac ystyried deinameg perthnasoedd rhwng cyfoedion a'u dylanwad ar ei gilydd o fewn eu lleoliad addysgol/dysgu.

Bydd staff yn cefnogi cynlluniau unigol plant a bydd uwch gynrychiolwyr yn mynychu'r cyfarfodydd MACE strategol chwarterol.

**Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda**

Efallai y bydd plentyn yn cael cyswllt â nifer o wahanol ymarferwyr iechyd mewn lleoliadau gwahanol. Gall hyn fod ar yr un pryd neu ar adegau gwahanol. Mae nifer o ymarferwyr iechyd yn y Bwrdd Iechyd sydd â dyletswydd a chyfrifoldeb mewn perthynas ag atal, amddiffyn, a chymorth ar gyfer plant.

Bydd ymarferwyr iechyd yn cefnogi cynlluniau unigol plant a bydd Uwch Nyrs ar gyfer Diogelu yn mynychu'r cyfarfodydd MACE strategol chwarterol.

Mae'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) yn darparu ymateb wedi'i gydlynu i blant a allai fod wedi cael eu cam-drin. Mae'r gwasanaeth yn cwmpasu rhanbarth Heddlu Dyfed Powys, Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BA), BIP Aneurin Bevan, BIP Caerdydd a'r Fro, BIP Cwm Taf Morgannwg (CTM), BIP Hywel Dda (HDd) a Bwrdd Iechyd Addysgu (BIA) Powys.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n comisiynu adolygiad tystiolaeth o ymyriadau sy’n deall trawma i oleuo datblygiad pellach ymyriadau therapiwtig seiliedig-ar-dystiolaeth a gwasanaethau sy’n deall trawma ehangach ledled Cymru.

**Gofalwyr Maeth**

Mae Rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymrwymo i sicrhau na ddylai plant ddod yn blant sy’n derbyn gofal yn ddiangen oherwydd camfanteisio y tu allan i’r teulu, fel a nodir yn y Strategaeth Camfanteisio ar Blant hon, ein nod yw targedu cyflawnwyr a chydgynhyrchu deilliannau diogel ac ystyrlon gyda phlant a'u teuluoedd lle bynnag y bo’n ddiogel gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd amgylchiadau lle mae plant eisoes yn derbyn gofal a lle nodir pryderon am eu diogelwch.
Mae gofalwyr maeth yn hollbwysig o fewn rhwydwaith cymorth plentyn ochr yn ochr â'u gweithiwr cymdeithasol goruchwylio, gweithiwr cymdeithasol y plentyn, ei deulu biolegol, ei rwydwaith teuluol ehangach ac asiantaethau eraill sy'n gweithio ar y cyd i roi cymorth i ddiwallu anghenion y plentyn.

**Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau**

Nid yw'r rhanbarth yn cydoddef y defnydd o alcohol gan bobl dan oed na’r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon ac mae'n gweithio gyda'n partneriaid i atal materion o'r fath; fodd bynnag rydym hefyd yn cydnabod risgiau 'pwysau gan gyfoedion' ac arbrofi ac er na allwn ddileu hyn, gallwn weithio i hybu cydnerthedd a diogelwch o fewn plant gyda'n gilydd. Gall alcohol a sylweddau gael eu defnyddio gan gyflawnwyr o fewn y broses paratoi i bwrpas rhyw er mwyn hwyluso eu gweithgarwch cam-drin. Bydd staff yn cefnogi cynlluniau unigol plant, a bydd uwch gynrychiolydd yn mynychu'r cyfarfodydd MACE strategol chwarterol.

**Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid Rhanbarthol**

Mae'r gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn darparu asesiad medrus a chymorth i blant feithrin cydnerthedd ac ymateb i natur agored i niwed neu angen sy'n cynyddu eu risg o droseddu /ail-droseddu, er enghraifft gallai hyn fod yn niwed i eraill fel cam-drin rhwng cyfoedion neu droseddu o fewn y gymuned. Nod y Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid yw cyflawni ei nodau i atal, amddiffyn a chefnogi drwy hyrwyddo ymyriadau wedi'u targedu'n dda ac o ansawdd ar sail statudol ac anstatudol gyda phlant a theuluoedd.

Bydd staff yn cefnogi cynlluniau unigol plant gan gynnwys cyfarfodydd strategaeth, a bydd uwch gynrychiolwyr yn mynychu cyfarfodydd strategol MACE rheolaidd.

**Gwasanaethau Ieuenctid Rhanbarthol a Grwpiau Cymunedol**

Mae'r egwyddorion sy'n tanategu Gwaith Ieuenctid mewn sefyllfa dda i ennyn diddordeb plant o fewn eu grwpiau cyfoedion ac o fewn ein cymuned. Mae Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru, 2019, yn nodi'r cyfleoedd gwahanol i blant ymgysylltu â gweithwyr ieuenctid a sut y gall gwasanaethau ieuenctid roi cymorth i atal, diogelu, a chefnogi plant.

Nod y strategaeth hon yw cryfhau cysylltiadau â Gwasanaethau Ieuenctid, grwpiau chwaraeon, dawns, drama, a phob grŵp cymunedol lleol arall. Bydd gweithwyr ieuenctid yn cefnogi cynlluniau unigol plant a bydd uwch gynrychiolydd yn mynychu cyfarfodydd MACE chwarterol.

**Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol**

Mae Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid yn cydweithio'n agos gyda'r gwasanaeth prawf i gefnogi pontio diogel ac ystyrlon ar gyfer plant y mae arnynt angen cefnogaeth ôl-18 parhaus ar sail ffurfiol neu anffurfiol. Bydd pob oedolyn yn cael ei gefnogi gan y gwasanaeth prawf mewn ffyrdd sy'n lleihau'r risg o niwed y gallant ei gyflwyno trwy asesu, darparu ymyriadau o ansawdd wedi'u targedu'n dda a chynllunio ar gyfer rheoli risg mewn ffordd sy'n nodi ac yn rhannu ffactorau a allai fod yn risg i ddiogelwch a lles plant. Mae'r gwasanaeth prawf yn gyfrifol am rannu gwybodaeth er mwyn diogelu plant o fewn meysydd perthnasol megis Cyfarfodydd Strategaeth, MAPPA a MARAC. Bydd uwch gynrychiolydd yn mynychu cyfarfodydd strategol MACE rheolaidd.

**Gwasanaeth Dychwelyd Adref Llamau**

Os yw plentyn ar goll, gall hynny arwain at Gamfanteisio ar Blant neu ddigwydd o ganlyniad i Gamfanteisio ar Blant.

Llamau yw'r gwasanaeth annibynnol a gomisiynwyd i gefnogi plant sydd wedi cael eu hadnabod fel rhai sydd ar goll. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cymorth i ymyrryd yn gynnar er mwyn helpu i atal camdriniaeth, a gweithio i amddiffyn a chefnogi plant. Bydd staff yn cefnogi cynlluniau unigol plant gan gynnwys cyfarfodydd strategaeth, a bydd uwch gynrychiolwyr yn mynychu cyfarfodydd strategol MACE chwarterol. Rydym yn deall y cysylltiad rhwng sefyllfa pan fo plant ar goll a risg o niwed. Rydym yn cefnogi'r ddadl nad oes angen i 'statws plentyn coll' fod yn un dros nos gan bod camdriniaeth yn digwydd yn ystod pob rhan o bob dydd. Felly, mae dyraniad yn seiliedig ar amgylchiadau unigol y plentyn ac nid yr amser o'r dydd neu hyd y cyfnod y mae ar goll.

**Timau Trwyddedu'r ALl**

Gall Camfanteisio ar Blant ddigwydd yn unrhyw le ac ar unrhyw adeg. Gall Timau Trwyddedu ALl Rhanbarthol roi cymorth gyda gwaith atal trwy weithio gyda thrwyddedeion i roi anogaeth i godi ymwybyddiaeth ar draws mannau a lleoedd amrywiol fel tafarndai a chlybiau nos, tacsis, bwytai, siopau cludfwyd, safleoedd carafanau, marchnadoedd a digwyddiadau, tacsis, gwestai a thai llety. Gall timau trwyddedu hefyd roi cymorth amhrisiadwy i darfu ar achosion o gamfanteisio ar blant

yn ein cymunedau gan bod ganddynt ystod o opsiynau gorfodi megis cyngor ac arweiniad anffurfiol, rhybuddion ysgrifenedig anffurfiol, rhybuddion, erlyniadau ac adolygiadau trwyddedu.

**Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC)**

Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn bartneriaeth amlasiantaeth i fynd i'r afael â throseddu ac anhrefn gan gynnwys trais difrifol a throseddau cyfundrefnol. Mae gan holl awdurdodau lleol Cymru hefyd ddyletswydd i rannu pryderon diogelu sy'n ymwneud â gwaith gwrthderfysgaeth fel a nodir yn yr agenda CONTEST a reolir gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae'r swyddogaethau uchod yn adlewyrchu'r angen am dîm y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i wneud gwaith atal, amddiffyn a chefnogi plant sy'n wynebu mwy o risg o gamfanteisio. Bydd rheolwr y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn mynychu cyfarfodydd strategol MACE chwarterol.

**Gwasanaethau Tai**

Gall Gwasanaethau Tai gefnogi mewn llu o ffyrdd i atal, amddiffyn a chefnogi plant sy'n wynebu mwy o risg o gamfanteisio. Mae eu gwasanaethau'n ymgysylltu â theuluoedd ledled yr ardal sy'n cynnig dealltwriaeth amhrisiadwy am bryderon diogelu cymunedol, gan gynnwys camfanteisio ar blant. Maent hefyd mewn sefyllfa i allu adnabod dangosyddion risg ar gyfer camfanteisio ar blant o fewn eiddo a rhoi cymorth i darfu er mwyn lleihau niwed. Mae staff yn cefnogi cynlluniau unigol plant yn ôl y gofyn, a bydd uwch gynrychiolydd yn mynychu cyfarfodydd strategol MACE chwarterol.

**Y Gwarcheidwad Masnachu Plant Annibynnol Rhanbarthol (R-ICTG)**

Amlinellir rôl R-ICTG yn a.48 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi dod yn Safleoedd sydd wedi Mabwysiadu'r Strategaeth yn Gynnar ar gyfer y Gwasanaeth Gwarcheidiaeth Masnachu Plant Annibynnol.

Bydd y R-ICTG yn cydweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol a gall gynnig cymorth gan gynnwys hyfforddiant amlasiantaeth, gwaith uniongyrchol, ymgyngoriadau achos, mynychu cyfarfodydd strategaeth plant a rhoi cymorth i hyrwyddo atgyfeiriadau o ansawdd at y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol. Bydd y R-ICTG yn mynychu cyfarfodydd MACE strategol chwarterol.

**Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

Mae Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Ranbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CGC), 'Bywydau Diogelach, Teuluoedd Iachach', ar gyfer 2019-20 yn amlinellu chwe amcan allweddol gyda thri maes blaenoriaeth ychwanegol. Mae'r amcanion yn cefnogi atal, amddiffyn a chefnogaeth i blant a theuluoedd. Mae cyfleoedd rheolaidd ar gyfer hyfforddiant amlasiantaeth, ymyriadau i blant a theuluoedd sydd wedi dod i gysylltiad â cham-drin domestig, trais rhywiol ac aflonyddu, a thrais ar sail rhyw. Bydd gwasanaethau arbenigol yn cefnogi cynlluniau unigol plant a bydd cynrychiolwyr gwasanaethau'n mynychu cyfarfod MACE chwarterol.

**MACE a Llywodraethu'r Strategaeth Camfanteisio ar Blant**

Mae bwrdd diogelu rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru, sef CYSUR, yn ymrwymedig i sicrhau ymatebion priodol i fynd i'r afael â chamfanteisio ar blant trwy gydlynu ymdrechion amlasiantaeth yn well o safbwynt strategol a gweithredol. Mae hyn yn cynnwys parhau â'n cyfarfodydd Camfanteisio ar Blant AmlAsiantaeth strategol (MACE) a'u hadolygu'n rheolaidd. Ceir cyfarfod MACE ym mhob un o ranbarthau Canolbarth a Gorllewin Cymru ar lefel Awdurdod Lleol

ac mae'n darparu gwybodaeth a diweddariadau chwarterol i'r Grŵp Gweithredol Lleol sy'n adrodd yn uniongyrchol wrth fwrdd diogelu rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru, sef CYSUR.

Nodau ac amcanion allweddol MACE y rhanbarth yw:

- Monitro’r broses o gyflawni cynllun gweithredu’r strategaeth Camfanteisio ar Blant sy'n nodi meysydd datblygu gwasanaethau ac yn gweithio ar y cyd i lywio gwelliannau yn yr ymateb i gamfanteisio ar blant. Bydd hyn yn cynnwys cyflawni mesurau ystyrlon i adolygu gwerth ac effaith y cynllun gweithredu o ran diogelu plant.
- Hwyluso’r broses o rannu gwybodaeth a monitro mannau problemus ac adolygu gwaith casglu data ar fesurau allweddol sydd o gymorth i adnabod graddfa camfanteisio ar blant ac ymdrechion tarfu ledled y rhanbarth.
- Monitro effeithiolrwydd ymatebion ar draws ystod o ymyriadau atal, amddiffyn a chefnogi a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu i'r safon uchaf ac yn cael eu goleuo gan dystiolaeth.

**Rhestr Cyfeirio**

Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan (2019), Diogelu Plant rhag Camfanteisio Troseddol ar Blant, Gweithdrefnau Diogelu Cymru, ar gael yn https://safeguarding.wales/chi/c6/c6.p3.html

Beckett, H (2011) Not a World Away: The Sexual Exploitation of Children and Young People in Northern Ireland. Belfast: Barnardo’s NI.

Bronfenbrenner U (1979) The ecology of human development: Experiments by nature and design. Harvard University Press.

Firmin C (2017) Contextual safeguarding: an overview of the operational, strategic and conceptual framework. Prifysgol Swydd Bedford.

Firmin C, Wroe L, Lloyd J (2019) Safeguarding and exploitation - complex, contextual and holistic approaches: Strategic Briefing (2019). Research in Practice.

Canllawiau i leoliadau addysg am gam-drin rhywiol, camfanteisio ac ymddygiad rhywiol niweidiol gan gyfoedion (2020), Llywodraeth Cymru, NSPCC a Barnardos; https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/canllawiau-i-leoliadau-addysg-am-gam-drin-rhywiol-camfanteisio-ac-ymddygiad-rhywiol-niweidiol-gan-gyfoedion.pdf

Hackett, S (2010) Children, Young People and Sexual Violence in Barter C and Berridge D (eds) Children Behaving Badly? Exploring peer violence between children and young people. Llundain: Blackwell

APPROVED

Wiley.

Hackett, S, Holmes, D, Branigan, P (2016) Harmful sexual behaviour framework: an evidence-informed operational framework for children and young people displaying harmful sexual behaviours. Adroddiad Prosiect. NSPCC, Llundain.

Hallett S, Verbruggen J, Buckley K and Robinson A (2019) Keeping Safe? An analysis of the outcomes of work with sexually exploited young people in Wales. Prifysgol Caerdydd.

Jay, A (2022) Child sexual exploitation by organised networks, Independent Inquiry Child Sexual Abuse. Adroddiad yr Ymchwiliad; https://www.iicsa.org.uk/key-documents/28314/view/child-sexual-abuse-organised-networks-investigation-report-february-2022.pdf

Maxwell N et al (2019) Adolygiad Mapio Systematig a Synthesis o Gamfanteisio Troseddol ar Blant, CASCADE.

Ystadegau'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (2018) Cyflwyniad Gwasanaeth Barnardo's mewn Cyflwyniad Cymuned Ymarfer i Bowys, 2019.

Rhannu lluniau noeth a hanner noeth: ymateb i ddigwyddiadau a diogelu plant a phobl ifanc (2020), Llywodraeth Cymru; https://hwb.gov.wales/api/storage/6ad01b82-3a2c-4bf4-bd21-f5bac42655a4/sharing-nudes-and-semi-nudes-guidance-for-education-settings-in-wales-final-english-011220.pdf

Stop it now. Adnoddau ar gael yn; https://www.stopitnow.org.uk/stop-it-now-wales/resources/

Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru (2019) Llywodraeth Cymru https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/strategaeth-gwaith-ieuenctid-cymru.pdf

'Bywydau Diogelach, Teuluoedd Iachach', Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru 2019-20

Y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol: Adnabod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol (2019). Llywodraeth Cymru, ar gael yn https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-07/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-atal-ac-ymateb-i-gam-drin-plant-yn-rhywiol.pdf

APPROVED

Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019) ar gael yn https://safeguarding.wales/

Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 7 – Diogelu Plant rhag Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (2021). Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Llywodraeth Cymru. https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-02/gweithio-gydan-gilydd-i-ddiogelu-pobl-cyfrol-7--canllawiau-statudol-diogelu-plant-rhag-camfanteisio-rhywiol.pdf

APPROVED